

Helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu (HOPE)

Cwestiynau Cyffredin

Bwriad y ddogfen hon yw ateb cwestiynau gan y rhanddeiliaid yr ydym yn gweithio gyda nhw. Nid yw'r atebion o reidrwydd yn gyflawn ac os oes gennych ymholiadau neu gwestiynau pellach, mae croeso i chi gysylltu. Mae'r manylion cyswllt i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon.

1. Sut mae'r prosiect HOPE yn cael ei ariannu?

Ariennir y prosiect HOPE gan Lywodraeth Cymru dan y Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy am gyfnod o dair blynedd hyd at ddiwedd Mawrth 2023.

2. Beth yw pwrpas y prosiect HOPE?

- Bydd HOPE yn darparu cymorth eiriolaeth ar lefel gymunedol drwy ystod o fodolau eiriolaeth gan recriwtio cyn darparu hyfforddiant a chefnogaeth lawn ar gyfer gwirfoddolwyr y prosiect. Ni fyddwn yn darparu eiriolaeth am dâl nac unrhyw fath o eiriolaeth statudol.
- Bydd HOPE yn hyrwyddo eiriolaeth yn ei holl ffurfiau er mwyn dangos pa mor bwysig ydyw a pha wahaniaeth y gall ei wneud.
- Bydd HOPE yn sefydlu rhaglen o hyfforddiant, gweithdai a digwyddiadau a fydd yn galluogi eiriolwyr ledled Cymru i ddatblygu eu sgiliau a gwybodaeth ymhellach.

3. Pa gefnogaeth all y prosiect HOPE ei darparu?

Bydd y prosiect Cymru gyfan hwn yn:

- Mae HOPE yn brosiect newydd cyffrous a fydd yn cefnogi pobl hŷn (50+) a gofalwyr i; ymgysylltu, cymryd rhan, caffael gwybodaeth, lleisio eu barn, deall eu hawliau, gwneud dewisiadau, cael eu cynnwys, rhannu profiadau, codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth a datblygu sgiliau a gwybodaeth.
- Bydd staff a gwirfoddolwyr HOPE hefyd yn ymgysylltu â chymunedau a all ein harwain i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarparwn yn briodol ar gyfer anghenion pobl hŷn a gofalwyr yn eu hardaloedd.
- Byddwn yn datblygu fforymau i'n cefnogi i wneud hyn neu byddwn yn gweithio â rhai sydd eisoes yn bodoli, os oes rhai.
- Bydd HOPE yn adnabod ac yn cefnogi Llysgenhadon Eiriolaeth drwy'r fforymau, a fydd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau a dewisiadau, a phwysigrwydd, buddion a chanlyniadau eiriolaeth.

4. Pwy fydd yn elwa o'r prosiect HOPE?

Bydd pobl hŷn (50 +) a gofalwyr ledled Cymru yn cael cyfleoedd i dderbyn cymorth eiriolaeth, i wirfoddoli er mwyn darparu cymorth eiriolaeth a/neu ddod yn llysgenhadon eiriolaeth i hyrwyddo eiriolaeth ymwybyddiaeth. Nod HOPE yw cefnogi pobl yn gynnwys gyda'u problemau neu eu pryderon i'w hatal rhag wynebu argyfwng.

Bydd eiriolwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ledled Cymru yn elwa o'r hyfforddiant, gweithdai a digwyddiadau.

5. Pwy sydd yn gyfrifol am y prosiect HOPE?

Prosiect partneriaeth yw HOPE. Y partneriaid yw; Age Cymru, partneriaid lleol Age Cymru a phartneriaid Age Connects Cymru ac maent yn ffurfio bwrdd y prosiect, sy'n goruchwyllo cyfeiriad strategol a gweithrediad y gwaith. Age Cymru yw'r sefydliad arweiniol a chyflogwyr y tîm hefyd.

6. Ym mha leoliad(au) fydd y prosiect HOPE yn cael ei gyflwyno?

Mae hwn yn brosiect Cymru gyfan, ond byddwn yn gweithio ar draws rhanbarthau gyda staff rhanbarthol yn eu lle. Y rhanbarthau yw:

- Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot
- Caerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful
- Dyfed Powys
- Gogledd Cymru
- Gwent

7. Ym mhle fydd tîm HOPE yn cael ei leoli?

Bydd y staff rhanbarthol yn cael eu cynnal naill ai gan bartner lleol Age Cymru neu bartner Age Connects yn y rhanbarth y maent yn gweithio ynddo.

Bydd aelodau'r tîm sydd â chylch gwaith cenedlaethol yn gweithio o fewn swyddfydd Age Cymru. Nodwch os gwelwch yn dda, yn ystod pandemig Covid-19, bydd y staff yn

gweithio gartref nes bydd y canllawiau ac arferion gweithio diogel yn caniatáu fel arall.

8. Pryd fydd y prosiect HOPE yn darparu ei wasanaethau?

Cychwynasom y gwaith ar 1 Ebrill 2020, ond mae'r pandemig COVID-19 presennol wedi effeithio ar y gwaith rydym wedi gallu ei wneud hyd yn hyn, yn ogystal â'n ffordd o wneud y gwaith.

Gan fod hwn yn brosiect newydd, bydd angen peth amser arnom i'w sefydlu a'i gynnal ar draws rhai ardaloedd mawr, felly hyd yn oed o fewn y rhanbarthau bydd yn rhaid i ni ganolbwyntio ein ffocws ar ardaloedd penodol, sydd â'r angen mwyaf yn ystod y camau cynnar. Yn ddiweddarach, byddwn yn cyflwyno HOPE ledled y rhanbarthau. Gofynnwn yn garedig i chi fod yn amyneddgar wrth i ni wneud hyn. Byddwn yn hyrwyddo'r rhanbarthau a ddechreuwn drwy ddulliau amrywiol gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol a thrwy gyfrwng ein rhwydweithiau.

9. Sut fydd y prosiect yn cael ei weithredu o fewn cyfyngiadau COVID-19?

Bydd y prosiect HOPE yn glynu wrth gyngor y Llywodraeth ac yn blaenoriaethu diogelwch pawb sy'n gysylltiedig. Byddwn yn adolygu ein prosesau'n barhaus ac yn bod mor arloesol â phosibl drwy gymysgedd o ymgysylltu ar-lein a rhithwir i ddechrau. Byddwn yn cychwyn ymgysylltu wyneb yn wyneb pan ellir gwneud hynny'n ddiogel yn unig.

Hoffem helpu pobl i gael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt ar yr adeg gynharaf a gwyddom y bydd y pandemig COVID-19 presennol wedi cael effaith sylweddol ar fywydau pobl hŷn, felly mae'n bosib bod angen mwy o gymorth nag erioed arnynt i ail-ymgysylltu â'u cymunedau a chael mynediad at wasanaethau wrth i gyfyngiadau gael eu llacio.

10. Pa fathau o eiriolaeth fydd yn cael ei darparu?

Bydd HOPE yn darparu gwasanaethau eiriolaeth cymunedol cynaliadwy, wedi'u cyd-gynhyrchu, ar gyfer cyfoedion, grwpiau a dinasyddion. Drwy wirfoddolwyr hyfforddedig yn unig y bydd y prosiect HOPE yn cyflwyno eiriolaeth, a hynny ar lefel ymyrraeth gynnar ac ataliol.

11. A fydd HOPE yn dyblygu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes?

Nid ydym eisiau dyblygu gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli, ond yn hytrach, hoffem sicrhau ein bod yn gweithio gyda'r darparwyr eiriolaeth sydd eisoes yn bodoli ledled Cymru, ac yn eu hategu.

12. Sut fydd HOPE yn cyd-gynhyrchu ei waith?

Bydd HOPE yn sefydlu, yn datblygu ac yn cefnogi fforymau cyd-gynhyrchu eiriolaeth ym mhob un o'r rhanbarthau, gan gymryd y trefniadau lleol parod i ystyriaeth. Bydd y fforymau hyn yn galluogi tîm HOPE i ymgysylltu â chymunedau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn briodol ar gyfer anghenion pobl hŷn a gofalwyr yn eu hardaloedd.

13. Pa gymorth fydd y prosiect HOPE yn ei ddarparu i'r sector eiriolaeth?

Bydd HOPE yn cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant Cymru gyfan cyn dylunio a darparu rhaglen o ddigwyddiadau datblygiad personol parhaus.

Bydd tîm HOPE hefyd yn parhau i gynnig rhywfaint o'r gefnogaeth a ddarparwyd yn flaenorol gan Age Cymru gan gynnwys; cefnogi rhwydweithiau a grwpiau cynghori; cynnal asesiadau; mapio gwasanaethau a chynhyrchu deunyddiau ymwybyddiaeth. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

14. Sut mae cael gafael ar gymorth y prosiect HOPE a'i adnoddau?

Gellir cysylltu â'r tîm yn y ffyrdd canlynol:

E-bost: advocacy@agecymru.org.uk

Gwefan: www.agecymru.org.uk/advocacy

15. Sut allwn ni wneud sylwadau, mynegi canmoliaeth neu gwynion os oes gennym rai?

Byddem yn falch iawn o glywed eich adborth ar waith y rhaglen a gellir gwneud hyn drwy gysylltu ag unrhyw aelod o'r tîm gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. Mae gan Age Cymru bolisi sylwadau, canmoliaeth a chwynion hefyd, sydd ar gael ar gais.

16. Sut bydd y tîm yn cyfathrebu â ni?

Bydd y tîm yn hapus i gysylltu â chi drwy gyfrwng o'ch dewis. Mae llawer o'n cyswllt drwy e-bost, ffôn a fideo-gynadledda, ond os yw'n well gennych, gallwn hefyd drefnu cyfarfod wyneb yn wyneb pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

Mae gan y tîm siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf hefyd ac os byddai'n well gennych siarad â ni yn Gymraeg, rhowch wybod os gwelwch yn dda. Mae pob un o'n hadnoddau cyhoeddedig yn ddwyieithog.

17. Sut allwn ni fod yn sicr o gyfrinachedd wrth weithio gyda'r tîm?

Mae HOPE yn bartneriaeth o dri phartner sefydledig sydd ag enw da rhagorol. Mae tîm HOPE yn ddarostyngedig i bolisiau a gweithdrefnau sefydliadol y partner arweiniol, Age Cymru. Mae'r rhain yn nodi disgwyladau clir ynghylch cyfrinachedd ar lefel yr unigolyn a'r sefydliad. Mae'r tîm yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol sicrhau cyfrinachedd fel sail ar gyfer sefydlu a chynnal ymddiriedaeth gyda phartneriaid ar draws sectorau, a bydd yn trin gwybodaeth sensitif yn gwbl gyfrinachol bob amser.

18. A fydd HOPE yn parhau ag unrhyw ran o waith y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP)?

Mae gan rai aelodau o dîm HOPE gylch gwaith cenedlaethol a byddant yn gallu cefnogi peth o'r gwaith a wneir gan GTAP. Mae hyn yn cynnwys:

- Cydweithio a chefnogi datblygiad parhaus rhwydweithiau eiriolaeth rhanbarthol a chenedlaethol.
- Hyrwyddo dull strategol o ymdrin ag eiriolaeth drwy weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid ynghylch y fframwaith ar gyfer Comisiynu IPA yng Nghymru.
- Ymgysylltu â grwpiau technegol neu ymgynghorol arbenigol yn ôl yr angen.
- Monitro cynnydd eiriolaeth broffesiynol annibynnol yng Nghymru drwy gyfrwng y rhwydweithiau, y digwyddiadau a thrwy arolygon parhaus.
- Cynnal asesiadau o ddarpariaeth eiriolaeth ledled Cymru, gan nodi bylchau/dyblygiadau a defnyddio hyn er mwyn cynnal cronfa ddata gynhwysfawr o ddarpariaeth gwasanaethau eiriolaeth.
- Cynhyrchu adroddiadau, canllawiau arferion da, pecynnau cymorth eiriolaeth a deunyddiau ymwybyddiaeth eiriolaeth.
- Hyrwyddo manteision ac annog cydweithio rhwng darparwyr gwasanaethau.

19. A fyddwn ni yn dal yn gallu cael mynediad at adnoddau GTAP?

Byddwch. Mae'r holl adnoddau GTAP yn parhau i fod ar gael ar ein tudalennau gwe - www.agecymru.org.uk/advocacy



Sut allaf gael rhagor o wybodaeth?

Am ragor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch â ni: advocacy@agecymru.org.uk

Dilynwch ni ar:

 [facebook.com/agecymru](https://www.facebook.com/agecymru)

 twitter.com/agecymru

Age Cymru, Llawr Isaf, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD
Ffôn: 029 2043 1555 E-bost: enquiries@agecymru.org.uk www.agecymru.org.uk

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436, cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Gweler uchod am ein swyddfa gofrestredig. ©Age Cymru 2020

